Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# PROBLEMS AND AIMS

**Problems have been identified with the existing M4 around Newport; covering issues of capacity, network resilience, safety and sustainable development.**

VEHICLES USE THE ROAD EVERYDAY
**100,000**
O GERBYDAU YN DEFNYDDIO'R FFORDD BOB DYDD

IN 2014 THE ROAD WAS **95%** FULL
LLAWN
DEFNYDD O'R FFORDD YN 2014

COST OF DELAYS TO ROAD USERS EVERY YEAR
**£78M**
Y GOST O OEDI I DDEFNYDDWYR FFORDD BOB BLWYDDYN

# PROBLEMAU A NODAU

**Nodwyd problemau gyda llwybr presennol yr M4 o amgylch Casnewydd, gan gynnwys materion o ran capasiti, gwydnwch y rhwydwaith, diogelwch a datblygu cynaliadwy.**

**Our Aims for the M4 Corridor around Newport Project are to:**

Make it easier and safer for people to access their homes, workplaces and services by walking, cycling, public transport or road.

Deliver a more efficient and sustainable transport network supporting and encouraging long-term prosperity in the region, across Wales, and enabling access to international markets.

To produce positive effects overall on people and the environment, making a positive contribution to the over-arching Welsh Government goals to reduce greenhouse gas emissions and to making Wales more resilient to the effects of climate change.

**Our Aims are supported by Transport Planning Objectives, of which these four have been prioritised by the public:**

1. Safer, easier and more reliable travel east-west in South Wales.
2. Best possible use of the existing M4, local road network and other transport networks.
3. More reliable journey times along the whole M4 Corridor.
4. Improved safety on the M4 Corridor between Magor and Castleton.

**Ein Nodau ar gyfer Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yw:**

Ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i bobl gael mynediad i'w cartrefi, gweithleoedd a gwasanaethau drwy gerdded, seiclo, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ar y ffordd.

Darparu rhwydwaith trafnidiaeth mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n cefnogi ac yn annog ffyniant hirdymor yn y rhanbarth a ledled Cymru, ac yn galluogi mynediad i farchnadoedd rhyngwladol.

Sicrhau bod y prosiect yn cael effeithiau cadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd, gan wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwneud Cymru yn fwy gwydn i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

**Caiff ein Nodau eu hategu gan Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth ac mae'r pedwar canlynol wedi'u blaenoriaethu gan y cyhoedd:**

1. Sicrhau ei bod yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy dibynadwy i deithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn Ne Cymru.
2. Gwneud y defnydd gorau posibl o lwybr presennol yr M4, y rhwydwaith ffyrdd lleol a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill.
3. Amseroedd teithio mwy dibynadwy ar hyd Coridor cyfan yr M4.
4. Gwell diogelwch ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.